# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 14eg 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Arwel Davies, Rhys Jones, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Richards. Anfonwyd ein dymuniadau gorau i Catrin Roberts ar achlysur ei phriodas ym mis Mehefin.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Roedd yr Arolygwr Priffyrdd am gadw golwg ar y ffordd ger Groeslon, Maesywaen gyda'r bwriad o wneud gwaith mwy parhaol maes o law.
ii) Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi bod a'r peiriant ysgubo ar hyd y ffordd o Lanycil i gyfeiriad pentref Parc.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Fframwaith Adfywio Ardal Ni – copi draft o'r Cynllun Adfywio Lleol a gwahoddiad i gyfarfod ar y 20/05/24 i'w drafod ymhellach. Cytunodd Arwel Davies ac Euros Puw fynychu'r cyfarfod.
ii) Rhybuddion Cau Ffyrdd.
iii) Arolwg Iaith.

b) Parc Cenedlaethol.
i) Rhybudd cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl.
ii) 'Dod yn Aelod o'r Awdurdod'.

c) Un Llais Cymru.
i) Contract cyflogaeth newydd i staff - cytunwyd i'w adolygu yn nes ymlaen yn y flwyddyn.
ii) Adroddiad Blynyddol: Amserlen Camau.

ch) Amrywiol.
i) Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru - lansio ymghynghoriad cyhoeddus ar barhau i atal ac ymateb i argyfyngau.
ii) Cyngor Tref Nefyn – cais am gefnogaeth i wrthwynebu bwriad Cyngor Gwynedd i wario £1 miliwn ar geir trydan.
iii) Ambiwlans Awyr Cymru – diweddariad.
iv) Cwmni Pum Plwy Penllyn – ymgynghoriad anghenion trafnidiaeth lleol.
v) Dŵr Cymru – gwahoddiad i gyfarfod safle gwaith Llyn Celyn. Cytunodd Euros Puw, Huw Charles a Geraint Jones i'w fynychu.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol. Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.
NP5/72/248A - Adeiladu un uned gwyliau hunanarlwyo tanddaearol newydd ynghyd a gosod tanc septig. Tir ger Boch y Rhaidr, Arenig (Euros Puw yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).
NP5/72/253 - Codi estyniad unllawr. Fedw'r Gôg, Frongoch.

**vi) Materion Ariannol**

a) Archwiliad Blynyddol.
Eglurodd y clerc fod cyfrifon 2023-24 yn destun archwiliad llawn ac roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu Zurich (yswiriant).

c) Ceisiadau ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau gan St John's Ambulance, Eisteddfod Llangollen a Kids Cancer Charity. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen:-
i) Ffordd yn dirywio rhwng Pant yr Hedydd a Chapel Arenig.
ii) Twll mawr yn y ffordd rhwng Plas Madog a Penbryncoch, Parc.
iii) Gwter wedi tagu rhwng Pentre Felin a Wern Goch, Parc.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin 11eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….